Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Equality and Human Rights Commission

Ymwneud bob dydd

Pwy ydych chi'n ei weld?

Byw gyda'n gilydd yng Nghymru

Canfyddiadau allweddol

- Yng Nghymru mae bwydo ar y fron yn gyhoeddus yn cael ei ystyried yn arfer derbyniol. Teimlai 72% o'r boblogaeth yn gyfforddus o weld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus.
- Mae nifer sylweddol o oedolion yng Nghymru yn credu bod Sipsiwn a Theithwyr, pobl sy'n profi iselder ysbryd o bryd i'w gilydd, pobl 70 oed neu'n hŷn a phobl sy'n drawryweddol yn anaddas i fod yn athrawon ysgol gynradd (crybwyllwyd gan 33% o oedolion yng Nghymru neu fwy).
- Roedd tua chwarter y bobl yng Nghymru yn credu y dylai fod gan berchennog Gwely a Brecwast yr hawl i wrthod derbyn cais am ystafell gan bobl ifanc o dan 21 oed.

Ymwneud bob dydd

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canfyddiadau tri chwestiwn ar ffurf senario lle gofynnwyd i ymatebwyr sut y dylai pobl ymddwyn tuag at wahanol grwpiau o unigolion mewn sefyllfaoedd bob dydd. Roedd y cwestiynau hyn yn rhan o'r arolwg o agweddau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru ac fe'u defnyddiwyd gynt mewn arolwg o Agweddau Cymdeithasol yn yr Alban yn 2006 fel y gellid gwneud cymariaethau bras.

A ddylai fod modd i berchnogion gwely a brecwast wrthod derbyn cais am ystafell?

Er bod y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar wasanaeth masnachol busnes gwely a brecwast, byddai llawer o bobl yn fwy na thebyg yn credu bod hawl gan y perchennog benderfynu pwy y dylid ei dderbyn i'w cartref, ac yn y ffordd hon dewiswyd y pwnc yn fwriadol i ddatgelu agweddau gwahaniaethol sylfaenol.

Y grwpiau yr holwyd yn eu cylch oedd:

- Pâr sy'n hoyw neu'n lesbaidd
- Rhywun â chi tywys
- Rhywun o gefndir ethnig neu hiliol gwahanol iddynt hwy eu hunain
- Rhywun o dan 21 oed
- Rhywun ag anabledd dysgu

Ar gyfer pob un o'r chwe opsiwn, ni chredai 70 y cant o boblogaeth Cymru y dylai fod modd i berchnogion gwely a brecwast wahaniaethu yn erbyn aelodau o grŵp drwy wrthod derbyn eu cais am ystafell. Fodd bynnag, cytunodd lleiafrif sylweddol fod gwahaniaethu yn dderbyniol - credai mwy nag un o bob deg o oedolion fod gwahaniaethu yn dderbyniol ar gyfer pob opsiwn a grybwyllwyd.

Credwyd ei bod yn fwy derbyniol gwahaniaethu yn erbyn person ar sail oedran nag unrhyw opsiwn arall a gynigiwyd. Mae'n werth nodi bod mwy o ymatebwyr yn credu y dylai fod modd i rywun sy'n

rhedeg gwely a brecwast yn eu cartref wrthod derbyn cais am ystafell gan rywun o dan 21 oed nag unrhyw grŵp arall (dywedodd 24 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru y dylai'n bendant neu'n fwy na thebyg o gymharu â 17 y cant neu'n is ar gyfer pob datganiad arall).

Ffigur 7.1 A ddylai fod modd i berchnogion gwely a brecwast wrthod derbyn cais am ystafell?



Sylfaen: Pob ymatebwr (heb eu pwysoli: 1,589, wedi'u pwysoli: 1,589)

Am bump o'r chwe senario, roedd y canlyniadau o Gymru yn debyg i'r rhai o'r Arolwg o Agweddau Cymdeithasol yn yr Alban a gynhaliwyd yn 2006. Y grwpiau hyn oedd:

- unrhyw un o dan 21 oed
- rhywun o gefndir ethnig neu hiliol gwahanol
- rhywun â chi tywys
- rhywun â chrefydd wahanol iddynt hwy eu hunain
- rhywun ag anabledd dysgu.

Roedd safbwyntiau ynglŷn â derbynioldeb gwrthod cais am ystafell gan bâr hoyw neu lesbaidd yn wahanol iawn. Yng Nghymru roedd 17 y cant o'r boblogaeth yn credu y byddai'n dderbyniol gwrthod cais am ystafell gan y grŵp hwn. Tra oedd tua hanner oedolion yn

yr Alban yn cytuno ei bod yn dderbyniol. Mae'n rhaid trin y gwahaniaeth hwn yn ofalus[1] oherwydd y dulliau casglu data gwahanol a ddefnyddiwyd. Eto i gyd, mae hwn yn wahaniaeth mawr o gofio bod ymatebwyr yn y ddau arolwg wedi rhoi eu hateb yn uniongyrchol i gyfwelydd.

Pwy sy'n cefnogi'r hawl i wrthod?

Wrth edrych ar wahanol grwpiau a gefnogodd yr hawl i wrthod, roedd dynion ychydig yn fwy tebygol o gytuno y dylai fod modd i berchnogion gwely a brecwast wrthod derbyn cais am ystafell gan bâr hoyw neu lesbaidd na menywod (19 y cant o ddynion o gymharu â 14 y cant o fenywod).

Dangosodd dadansoddiad yn ôl oedran fod pobl 65 oed neu'n hŷn yn llawer mwy tebygol o gredu ei bod yn dderbyniol i berchnogion gwely a brecwast wrthod derbyn cais am ystafell gan bâr hoyw neu lesbaidd (27 y cant) o gymharu â 17 y cant o'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Roedd hyn hefyd yn wir pan ofynnwyd i oedolion yng Nghymru a oedd yn dderbyniol, yn eu barn hwy, wrthod derbyn cais am ystafell gan rywun a oedd o gefndir hiliol neu ethnig gwahanol iddynt hwy eu hunain (credai 22 y cant o bobl 65 oed neu'n hŷn ei bod yn dderbyniol o gymharu â 13% o'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd).

Yn gyffredinol, nid oedd fawr o amrywiad o ran cefnogaeth i'r hawl i wrthod yn ôl ethnigrwydd. Er bod 17 y cant o bobl o gefndiroedd ethnig nad oeddent yn wyn wedi cytuno y byddai'n dderbyniol i berchennog gwely a brecwast wrthod cais am ystafell gan rywun am fod ganddynt anabledd dysgu. Roedd hyn dipyn yn uwch na'r 11 y cant o bobl wyn Brydeinig neu Gymreig a deimlai hynny.

Roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn Gymry yn llawer llai tebygol o gytuno y dylai fod gan berchnogion gwely a brecwast yr hawl i wrthod derbyn cais am ystafell gan bâr hoyw neu lesbaidd, rhywun â chi tywys, a'r rhai ag anabledd dysgu na'r rhai a ddywedodd eu bod yn Saeson, yn Brydeinwyr neu'n dod o wlad arall. Gweler tabl 7.1

Roedd y rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal lle roedd y rhan fwyaf o bobl yn debyg iddynt hwy eu hunain yn llawer mwy tebygol, na'r rhai a ddywedodd y byddai'n well

[1] Gweler y Nodiadau ar y diwedd

ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl neu'r rhai nad oedd ganddynt farn bendant, o gytuno y dylai fod gan berchnogion gwely a brecwast yr hawl i wrthod derbyn cais am ystafell gan:

- bâr hoyw a lesbaidd - 23 y cant o gymharu â 15 y cant o'r rhai y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl a'r rhai nad oedd ganddynt farn bendant
- rhywun o gefndir ethnig neu grefyddol gwahanol - 21 y cant o gymharu ag 11 y cant a 11 y cant yn y drefn honno
- rhywun o dan 21 oed - 29 y cant o gymharu ag 21 y cant a 23 y cant yn y drefn honno.

Nid oedd llawer o wahaniaethau ymhlith y rhai a gytunodd (dylai, yn bendant / fwy na thebyg) y dylai fod gan berchnogion gwely a brecwast yr hawl i wrthod yn ôl dosbarth cymdeithasol a chrefydd.

Tabl 7.1 A ddylai fod modd i berchnogion gwely a brecwast wrthod derbyn cais am ystafell? Pawb a ddywedodd dylai'n bendant neu'n fwy na thebyg am bob grŵp unigol yn ôl is-grŵp demograffig.

	Sylfaen heb ei phwysoli, n =	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n =*	*Rhywun o dan 21 oed (%)*	*Pâr hoyw neu lesbaidd (%)*	*Rhywun â chi tywys (%)*	*Rhywun o gefndir ethnig gwahanol (%)*	*Rhywun â chrefydd wahanol (%)*	*Rhywun ag Anabledd dysgu (%)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**24**	**17**	**13**	**13**	**13**	**11**
Dynion	*744*	*768*	24	19	14	14	15	13
Menywod	*845*	*821*	23	14	13	13	12	10
Oedran:16-34	*385*	*413*	28	12	15	12	13	13
35-54	*598*	*581*	23	14	12	11	13	8
55-64	*262*	*248*	21	16	11	11	11	13
65+	*344*	*347*	23	27	15	22	15	13
Gwyn	*1438*	*1555*	24	16	13	14	13	11
Prydeinig/Cymreig								
Arall	*151*	*34*	30	22	19	11	12	17
Cymry	*884*	*928*	23	14	10	11	12	8
Saeson	*179*	*189*	25	22	20	14	17	14
Prydeinwyr	*494*	*491*	24	20	15	17	14	15
Arall	*97*	*47*	30	29	29	22	21	24
Gwahanol fathau o bobl	*236*	*231*	21	15	17	11	10	12
Pobl debyg	*337*	*342*	29	23	17	21	18	13
Dim barn bendant	*1005*	*1005*	23	15	11	11	12	10

Pwy sy'n addas i fod yn athro ysgol gynradd?

Nod y cwestiwn hwn oedd 'canfod i ba raddau y mae pobl yn derbyn y dylai pawb gael yr un hawl i geisio a sicrhau cyflogaeth'[2]. Dewiswyd y proffesiwn hwn yn hytrach na rhai eraill am ei fod yn ymwneud â gofal plant bach, a bernid ei fod yn 'faes sensitif o gyflogaeth' a allai ddatgelu tystiolaeth o agweddau gwahaniaethol[3].

Mae Ffigur 6.2 yn cyflwyno'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn nhrefn y ganran a ddywedodd fod grŵp yn eithaf anaddas neu'n *anaddas* iawn i fod yn athro ysgol gynradd.

Credid mai Teithwyr sy'n Sipsiwn a'r rhai sy'n profi iselder ysbryd o bryd i'w gilydd oedd leiaf addas i'r rôl hon. Dywedodd bron hanner poblogaeth Cymru y byddai'r grwpiau hyn yn anaddas iawn neu'n eithaf anaddas - credai 47 y cant fod Teithwyr sy'n Sipsiwn yn anaddas a chredai 46 y cant bod y rhai sydd wedi profi iselder ysbryd yn anaddas i'r rôl.

Credai nifer sylweddol (40 y cant) fod rhywun 70 oed neu'n hŷn yn eithaf anaddas neu'n anaddas iawn ar gyfer swydd athro ysgol gynradd. Dywedodd traean (33 y cant) yr un peth am rywun a oedd yn drawsryweddol.

Roedd agweddau tuag at y grwpiau eraill yn llai negyddol, gan fod y mwyafrif o boblogaeth Cymru wedi cytuno eu bod yn addas i'r rôl. Felly, credai 78 y cant y byddai dynion hoyw a menywod lesbaidd yn addas i'r rôl, er bod hynny'n golygu bod 12 y cant yn teimlo bod unigolion o'r fath yn anaddas. Yn ôl y canlyniadau credai 90 y cant y byddai pobl Dduon ac Asiaidd yn addas.

Mae'n ddiddorol nodi bod poblogaeth Cymru yn credu bod dynion yr un mor addas â menywod i fod yn athrawon ysgol gynradd - 94 y cant a 95 y cant yn y drefn honno. Byddai hyn yn awgrymu nad yw stereoteipio yn ôl rhyw mewn perthynas â'r proffesiwn hwn yn gryf ymhlith oedolion yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd menywod yn fwy tebygol o hyd o gael eu hystyried yn 'addas iawn' i'r rôl na dynion (cytunodd 80 y cant fod menywod yn addas iawn o gymharu â 74 y cant a gredai fod dynion yn addas iawn i'r rôl).

[2] ibid; t29.
[3] ibid; t29.

Ffigur 7.2 Pwy sy'n addas i fod yn athrawon ysgol gynradd?



Sylfaen: Pob ymatebwr (heb eu pwysoli: 1,589, wedi'u pwysoli: 1,589)

Yn gyffredinol, roedd oedolion yng Nghymru dipyn yn fwy tebygol o ddweud bod y rhan fwyaf o'r gwahanol grwpiau yr holwyd yn eu cylch yn eithaf addas neu'n addas iawn i rôl athro ysgol gynradd nag oedolion yn yr Alban. Er enghraifft, yn yr arolwg yng Nghymru a'r Alban Teithwyr sy'n Sipsiwn a gafodd y gefnogaeth leiaf i fod yn addas i'r rôl. Fodd bynnag, dim ond 20 y cant o boblogaeth yr Alban a ddywedodd fod Teithwyr sy'n Sipsiwn yn addas i'r rôl o gymharu â 37 y cant o boblogaeth Cymru. Gellir gweld tuedd debyg i bob grŵp arall yr holwyd yn eu cylch yn y cwestiwn hwn, ac eithrio menywod lle cytunodd cyfran debyg o'r boblogaeth yng Nghymru a'r Alban y byddent yn addas i'r rôl (dywedodd 95 y cant

o'r boblogaeth yng Nghymru a 92 y cant o'r boblogaeth yn yr Alban y byddai menywod yn eithaf addas neu'n addas iawn).

Pwy sy'n credu bod grwpiau penodol yn llai addas i rôl athro ysgol gynradd?

Gwelwyd gwahaniaethau clir o ran agwedd yn ôl rhyw i sawl un o'r grwpiau yr holwyd yn eu cylch yn y cwestiwn hwn. Yn debyg i'r canlyniadau ar gyfer y senario ynglŷn â gwely a brecwast, roedd dynion dipyn yn fwy tebygol o ddweud nad oedd dynion hoyw na menywod lesbaidd yn addas i fod yn athro ysgol gynradd na menywod (roedd 16 y cant o ddynion o'r farn hon o gymharu â 9 y cant o fenywod).

Roedd dynion hefyd yn fwy tebygol na menywod o ddweud yn y cwestiwn hwn y byddai'r grwpiau canlynol yn anaddas i fod yn athrawon ysgol gynradd:

- pobl a oedd yn drawsryweddol - 37 y cant o gymharu â 29 y cant o fenywod
- pobl a oedd yn profi iselder ysbryd o bryd i'w gilydd - 50 y cant o gymharu â 42 y cant o fenywod.

Roedd pobl 65 oed neu'n hŷn hefyd yn fwy tebygol o fod ag agweddau gwahaniaethol tuag at grwpiau penodol na'r cyfartaledd, fel a ganlyn:

- dynion hoyw a menywod lesbaidd - 30 y cant o gymharu â 12 o'r boblogaeth gyffredinol
- pobl sy'n drawsryweddol - 39 y cant o gymharu â 33 y cant o'r boblogaeth gyffredinol
- Teithwyr sy'n Sipsiwn - 60 y cant o gymharu â 47 y cant o'r boblogaeth gyffredinol.

Roedd pobl iau a hŷn hefyd yn fwy tebygol o fod ag agweddau gwahaniaethol tuag at grwpiau sy'n profi iselder ysbryd. Credai o leiaf hanner pobl 16-34 oed (51 y cant) a'r rhai dros 65 (55 y cant) fod y rhai sy'n profi iselder ysbryd o bryd i'w gilydd yn anaddas i'r rôl. Roedd hyn yn cymharu â 39 y cant o bobl 35-54 oed a 42 y cant o bobl 55-64 oed. Hwn oedd yr unig grŵp o bobl yr holwyd yn ei gylch yn y cwestiwn lle roedd gan y grŵp oedran ieuengaf (16-34) agweddau mwy gwahaniaethol na rhai grwpiau oedran hŷn, a

gall hyn adlewyrchu diffyg amlygiad i iselder ysbryd ymhlith eu cyfoedion neu ddiffyg cydnabyddiaeth o'r cyflwr.

Roedd pobl o grwpiau cymdeithasol C2[4] a DE[5] dipyn yn llai tebygol o ddweud bod y grwpiau canlynol o bobl yn anaddas i fod yn athrawon ysgol gyntaf na'r rhai o ddosbarthiadau cymdeithasol AB[6] ac C1[7]:

- Pobl Dduon ac Asiaidd - 4 y cant o C2 a DE o gymharu ag 1 y cant o bobl o ddosbarth cymdeithasol AB neu C1
- rhywun 70 oed neu'n hŷn - 51 y cant o C2, 44 y cant o DE o gymharu â 34 y cant o AB a 36 y cant o C1.
- rhywun sy'n drawsryweddol - 41 y cant o C2, a 35 y cant o DE o gymharu â 26 y cant o AB a 31 y cant o C1
- rhywun sy'n profi iselder ysbryd o bryd i'w gilydd - 60 y cant o C2, a 53 y cant o DE o gymharu â 34 y cant o AB a 42 y cant o C1.

I'r holl grwpiau a archwiliwyd (ac eithrio dynion a menywod), roedd y rhai a orffennodd eu haddysg yn 19 oed neu'n hŷn yn llai tebygol o ddweud bod pobl o bob grŵp yn anaddas i fod yn athrawon ysgol gynradd na'r cyfartaledd. Mewn gwrthwynebiad â hyn, roedd y rhai a adawodd yr ysgol yn 16 oed neu'n iau yn fwy tebygol o ddweud bod y grwpiau hyn o bobl yn anaddas na'r cyfartaledd. Dangosir y canlyniadau hyn yn nhabl 6.2.

Wrth edrych am wahaniaethau mewn agwedd yn ôl grwpiau ethnig, rhyw ac iselder ysbryd a ddatgelodd y gwahaniaethau mwyaf mewn canfyddiadau. Roedd y rhai o grwpiau ethnig nad oeddent yn wyn yn fwy tebygol o fod ag agweddau gwahaniaethol tuag at y grwpiau canlynol na'r rhai o gefndiroedd gwyn Prydeinig a Chymreig:

- dynion hoyw a menywod lesbaidd - dywedodd 18 y cant o gefndiroedd ethnig nad oeddent yn wyn eu bod yn anaddas i'r rôl o gymharu â 12 y cant o bobl wyn Brydeinig a Chymreig

[4] Gweithwyr llaw crefftus
[5] Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft neu sy'n cael budd-daliadau/sy'n ddi-waith
[6] Cartrefi sy'n cynnwys deiliaid swyddi rheoli/gweinyddol/proffesiynol uwch a chanolraddol
[7] Cartrefi sy'n cynnwys deiliaid swyddi goruchwylio, clercol, is-reoli/gweinyddol/proffesiynol

- rhywun sy'n drawsryweddol - 41 y cant o bobl nad oeddent yn wyn o gymharu â 32 y cant o bobl wyn Brydeinig a Chymreig
- rhywun sy'n profi iselder ysbryd - 55 y cant o bobl nad oeddent yn wyn o gymharu â 46 y cant o bobl wyn Brydeinig neu Gymreig.

Roedd pobl a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal lle roedd y rhan fwyaf o bobl yn debyg iddynt hwy eu hunain yn fwy tebygol, na'r rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl neu'r rhai nad oedd ganddynt farn bendant, o ddweud bod chwech o'r wyth grŵp yn anaddas i fod yn athrawon ysgol gynradd. Yr unig adegau nad oedd y gwahaniaethau hyn yn amlwg oedd yn achos addasrwydd dynion a menywod. Dangosir y canlyniadau yn nhabl 7.2

Tabl 7.2 Pa mor addas fyddai pobl o'r grwpiau canlynol i fod yn athrawon ysgol gynradd yn eich barn chi? Pawb a ddywedodd yn eithaf anaddas neu'n anaddas iawn am bob grŵp yn ôl is-grŵp demograffig

	Sylfaen heb ei phwysoli, n =	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n =*	*Sipsi/ Teithwyr (%)*	*Rhywun sy'n profi iselder ysbryd o bryd i'w gilydd (%)*	*Rhywun 70 oed neu'n hŷn (%)*	*Rhywun sy'n drawsrywe ddol (%)*	*Dynion hoyw neu fenywod lesbaidd (%)*	*Pobl Dduon neu Asiaidd (%)*	*Dynion (%)*	*Menywod (%)*
Cyfanswm	***1589***	***1589***	**47**	**46**	**40**	**33**	**12**	**3**	**1**	*****
Dynion	*744*	*768*	49	50	38	37	16	4	1	1
Menywod	*845*	*821*	46	42	43	29	9	2	1	-
Oedran: 16-34	*385*	*413*	43	51	41	30	5	2	-	-
34-54	*598*	*581*	43	39	36	30	6	2	*	*
55-64	*262*	*248*	45	42	43	34	14	5	1	*
65+	*344*	*347*	60	55	44	39	30	4	2	1
Gwyn Prydeinig / Cymreig	*1438*	*1555*	47	46	40	32	12	3	1	*
Arall	*151*	*34*	46	55	38	41	18	1	2	1

AB	*382*	*376*	42	34	34	26	10	1	*	*
C1	*533*	*538*	45	42	36	31	9	1	*	*
C2	*242*	*241*	54	60	51	41	15	4	1	*
DE	*428*	*431*	49	53	44	35	16	4	2	*
Parhau i fod mewn addysg	*78*	*92*	53	54	43	41	7	2	-	-
16 neu'n iau	*638*	*651*	53	57	46	38	17	5	1	1
17-18	*327*	*334*	51	47	42	30	12	2	-	-
19+	*544*	*551*	37	30	31	26	7	*	1	-
Gwahanol fathau o bobl	*236*	*231*	37	33	30	23	7	1	*	-
Pobl debyg	*337*	*342*	66	60	50	50	24	8	2	1
Dim barn bendant	*1005*	*1005*	43	44	39	29	9	1	1	*
Salwch hirdymor cyfyngol	*200*	*200*	54	50	44	39	21	9	3	2
Dim	*1389*	*1389*	46	45	40	32	11	2	*	*

Noder: * Llai na 0.5 y cant

Ymatebion i fenywod yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus

Canolbwyntiodd y drydedd senario ar ymatebion pobl i fenyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus.

Roedd ymatebion i fenywod yn bwydo eu baban ar y fron yn gyhoeddus yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd bron tri chwarter poblogaeth Cymru (72 y cant) y byddent yn gyfforddus iawn neu'n eithaf cyfforddus pe baent yn gweld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron y gyhoeddus. Dywedodd 16 y cant y byddent yn teimlo'n eithaf anghyfforddus neu'n anghyfforddus iawn a dywedodd 12 y cant na fyddent yn gyfforddus nac yn anghyfforddus. Felly ymddengys yng Nghymru fod bwydo ar y fron yn gyhoeddus yn cael ei ystyried yn arfer derbyniol.

Ffigur 7.3 Teimlo'n gyfforddus neu'n anghyfforddus o weld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus



Sylfaen: pob ymatebwr (heb eu pwysoli: 1,589, wedi'u pwysoli: 1,589)

Ers 2005 bu'n anghyfreithlon gwahardd menyw rhag bwydo plentyn ar y fron yn gyhoeddus yn yr Alban.[8]Er gwaethaf y ddeddfwriaeth hon, roedd cyfran yr oedolion yn yr Alban a deimlai'n gyfforddus yn gweld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn llawer is na'r gyfran a oedd yn teimlo'n

[8] Deddf Bwyd ar y Fron etc (Yr Alban) 2005.

gyfforddus yng Nghymru. Yn yr Alban dywedodd 57 y cant o oedolion y byddent yn teimlo'n gyfforddus iawn neu'n eithaf cyfforddus pe baent yn gweld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus o gymharu â 72 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru.[9]

Pwy sy'n teimlo'n gyfforddus o weld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus?

Wrth edrych ar wahaniaethau ymhlith is-grwpiau, nid yw'n syndod nodi bod menywod yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn teimlo'n gyfforddus pe baent yn gweld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron na dynion (76 y cant o fenywod o gymharu â 67 y cant o ddynion). Roedd dynion yn fwy tebygol o beidio â mynegi barn bendant na menywod, gan ddweud nad oeddent yn gyfforddus nac yn anghyfforddus (15 y cant o ddynion o gymharu â dim ond 9 y cant o fenywod).

Roedd gwahaniaeth amlwg hefyd mewn barn ar y cwestiwn hwn yn ôl oedran. Roedd pobl 35-54 oed yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn gyfforddus pe baent yn gweld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus na'r grŵp oedran ieuengaf a'r hynaf (dywedodd 76 y cant o bobl 35-54 oed eu bod yn teimlo'n gyfforddus o gymharu â 67 y cant o bobl 16-34 oed a 68 y cant o bobl dros 65 oed).

Dywedodd y mwyafrif helaeth o oedolion a oedd yn byw fel parau â phlant yn eu cartref eu bod yn teimlo'n gyfforddus o weld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus (82 y cant). Roedd y grŵp hwn dipyn yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n gyfforddus nag oedolion a oedd yn byw fel pâr heb blant (69 y cant), oedolion sengl heb blant (68 y cant), ac yn fwy o syndod o bosibl, oedolion sengl â phlant (65 y cant).

Roedd y rhai o gefndiroedd gwyn Prydeinig a Chymreig hefyd yn fwy tebygol o deimlo'n gyfforddus o weld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron na'r rhai o grwpiau ethnig nad oeddent yn wyn (72 y cant o gymharu â 63 y cant yn y drefn honno). Dywedodd cymaint â chwarter (26 y cant) y bobl o gefndiroedd nad oeddent yn wyn y byddent yn teimlo'n anghyfforddus o weld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus (o gymharu â 16 y cant o bobl o gefndir gwyn Prydeinig neu Gymreig).

[9] Ond gweler y nodyn ar ddiwedd y ddogfen am gymariaethau rhwng canlyniadau'r ddau arolwg y mae'n rhaid eu trin yn eithaf gofalus.

Roedd gwahaniaeth amlwg hefyd yn ôl dosbarth cymdeithasol. Roedd y rhai o ddosbarth cymdeithasol AB yn fwy cyfforddus o weld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus na'r boblogaeth gyffredinol yn ei chyfanrwydd (77 y cant o unigolion AB o gymharu â 72 y cant o'r boblogaeth gyffredinol). Roedd y rhai o ddosbarth cymdeithasol AB hefyd dipyn yn llai tebygol o ddweud eu *bod yn teimlo'n anghyfforddus* na'r holl grwpiau dosbarth (11 y cant o unigolion AB o gymharu â 16 y cant o unigolion C1, 20 y cant o unigolion C2 a 18 y cant o unigolion DE).

Tabl 7.3 Pa mor gyfforddus neu anghyfforddus rydych chi'n teimlo o weld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus? Yn ôl is-grŵp demograffig

	Sylfaen heb ei phwysoli, n, =	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n =*	*Pawb yn gyfforddus (cyfforddus iawn neu'n eithaf cyfforddus)* *(y cant)*	*Ddim y naill na'r llall* *(y cant)*	*Pawb yn anghyfforddus* *(yn anghyfforddus iawn neu'n eithaf anghyfforddus)* *(y cant)*
Cyfanswm	***1589***	***1589***	**72**	**12**	**16**
Dynion	*744*	*768*	67	15	17
Menywod	*845*	*821*	76	9	15
Oedran: 16-34	*385*	*413*	67	17	16
35-54	*598*	*581*	76	10	13
55-64	*262*	*248*	73	9	18
65+	*344*	*347*	68	12	19
Pâr â phlant yn y cartref	*404*	*392*	82	8	9
Pâr heb blant yn y cartref	*542*	*524*	69	14	16
Sengl â phlant yn y cartref	*115*	*126*	65	17	18
Sengl â phlant yn y cartref	*522*	*541*	68	12	20
Gwyn Prydeinig / Cymreig	*1438*	*1555*	72	12	16
Arall	*151*	*34*	63	11	26
AB	*382*	*376*	77	12	11
C1	*533*	*538*	72	11	16
C2	*242*	*241*	63	17	20
DE	*428*	*431*	70	11	18

Crynodeb

Pan ofynnwyd a ddylai fod modd i berchnogion gwely a brecwast wrthod derbyn bwciadau gan grwpiau penodol roedd oedolion yng Nghymru fwyaf negyddol ynglŷn â phobl ifanc o dan 21 oed, gyda thua chwarter y boblogaeth yng Nghymru yn cytuno y dylai fod modd i berchennog gwely a brecwast wrthod derbyn cais am ystafell gan rywun yn y grŵp oedran hwn o gymharu â 17 y cant neu'n is ar gyfer pob grŵp arall yr holwyd yn ei gylch. Felly ymddengys ei bod yn fwy cymdeithasol dderbyniol i wahaniaethu yn erbyn pobl iau a phlant na grwpiau eraill.

O ofyn i ba raddau roedd gwahanol fathau o bobl yn addas i fod yn athrawon ysgol gynradd, roedd y canfyddiadau'n fwy cymysg yn dibynnu ar y grŵp dan sylw. Dywedodd cyfran sylweddol o oedolion yng Nghymru (traean neu fwy) y byddai Teithwyr sy'n Sipsiwn, y rhai sy'n profi iselder ysbryd, rhywun 70 oed neu'n hŷn a rhywun sy'n drawsryweddol yn anaddas iawn neu'n eithaf anaddas i fod yn athrawon ysgol gynradd. Roedd agweddau thuag at addasrwydd i fod yn athro yn fwy cadarnhaol tuag at ddynion hoyw a menywod lesbaidd a phobl Dduon ac Asiaidd gyda thri chwarter neu fwy o'r boblogaeth yn cytuno y byddent yn addas iawn neu'n eithaf addas i fod yn athro ysgol gynradd.

Yn olaf, mewn perthynas â menywod yn bwydo plentyn ar y fron yn gyhoeddus, roedd y canlyniadau yn gadarnhaol ar y cyfan gyda bron tri chwarter yr oedolion yng Nghymru yn dweud y byddent yn teimlo'n gyfforddus o weld menyw yn bwydo ei phlentyn ar y fron yn gyhoeddus.

Nodiadau

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwil ar gael ar dudalennau'r Comisiwn yng Nghymru ar ein gwefan yn:

www.equalityhumanrights.com

Ynglŷn â'r arolwg o agweddau

Comisiynodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru GfK NOP i ymgymryd ag ymchwil i agweddau pobl tuag at wahaniaethu, hawliau dynol a chydlyniant cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn ceisio archwilio agweddau pobl tuag at wahaniaethu o ran rhyw, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, dynion hoyw a lesbiaid, materion o ran oedran, crefydd a ffydd a hefyd y Gymraeg. Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi mesur sylfaenol o agweddau y gellid eu mesur eto yn y dyfodol.

Roedd y sampl yn cynnwys 1,589 o ymatebwyr. Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn. Cafodd pob ymatebwr y dewis o gwblhau'r arolwg yn Gymraeg. Ymdriniwyd â materion o ran mynediad drwy gynnig y cyfle i ddefnyddio gwasanaeth TypeTalk i'r rhai â nam ar y clyw. I'r rhai a gafodd anhawster i gyfathrebu yn Saesneg cynigiwyd y cyfle i ddefnyddio Llinell Iaith i gyfieithu'r cyfweliad.

Roedd y dull samplu a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfuno dewis rhifau drwy Ddeialu Digidau ar Hap (RDD) a defnyddio cwotâu i reoli proffil y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg. Pennwyd cwotâu yn ôl rhanbarth yng Nghymru (pum rhanbarth), yn ôl rhyw ynghyd â statws gwaith, yn ôl band oedran ac yn ôl tarddiad ethnig yn seiliedig ar wybodaeth ddemograffig a gafwyd o Gyfrifiad 2001. Pennwyd y rhain i sicrhau y byddai'r sampl yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru yn ôl y ffactorau hyn.

Hybwyd cyfweliadau mewn ardaloedd lle roedd cyfran uwch o bobl o leiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth.

Cymharu â'r Alban a Phrydain Fawr

Cymharwyd y canfyddiadau ag Arolwg 2006 o Agweddau Cymdeithasol yn yr Alban a'r archwiliad o ganfyddiadau a gynhaliwyd gan GfK NOP. Dylid nodi mai dim ond cymharu'n fras y gellir ei wneud am fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio yn y ddau arolwg hyn. Felly, mae'n rhaid trin unrhyw debygolrwydd neu wahaniaeth rhwng canfyddiadau'r arolygon hyn a chanlyniadau arolwg y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru fel rhai dangosol yn hytrach na rhai absoliwt.